# 4.0 Gwirfoddolwyr

Gwirfoddoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Safonau ac Adnoddau Dysgu

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn
3. Safonau Craidd:
   - Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau
   - Cyfathrebu
   - Parch at Bawb
   - Diogelu
   - Iechyd Meddwl, Dementia, ac Anabledd Dysgu
   - Iechyd a Diogelwch
4. Safonau Ychwanegol:
   - Hylifau a Maeth
   - Cymorth Bywyd Sylfaenol (BLS)
   - Symud a Chynorthwyo
5. Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau
6. Adnoddau Eraill
7. Manylion Darparwyr Dysgu Allweddol


## Cyflwyniad

Mae cyfraniad gwirfoddolwyr at y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn amhrisiadwy. Yn y rheng flaen ar gyfer cyflenwi gwasanaethau neu wella ansawdd profiad y claf neu effeithlonrwydd gwasanaethau; yn yr ysbyty, mewn gofal preswyl, neu yn y gymuned; wedi'u lleoli o fewn mudiad sector gwirfoddol, corff cyhoeddus statudol neu o fewn grŵp cymunedol – mae gan wirfoddolwyr rôl hanfodol i'w chwarae.

WWW

**Dolen Allanol**

Dyma rai ffyrdd y mae gwirfoddolwyr yn cefnogi'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Youtube: Sut mae gwirfoddolwyr yn cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Fel arfer, mae rhaglenni cynefino a dysgu i wirfoddolwyr yn cynnwys meysydd cyffredinol beth bynnag yw'r rôl neu'r lleoliad.

Mae'r safonau hyn yn cynnwys chwe ardal graidd (Safonau 1 i 6) sy'n berthnasol i bawb sy'n gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a thri phwnc mwy arbenigol (Safonau 7 i 9) a fydd yn berthnasol i wirfoddolwyr mewn rolau penodol yn unig.

Nid yw'r safonau'n orfodol ond cânt eu cydnabod ledled y Deyrnas Unedig. Cawsant eu datblygu gan weithgor o reolwyr gwasanaeth gwirfoddoli y GIG, gwirfoddolwyr, a mudiadau sector gwirfoddol fel fframwaith ar gyfer dysgu cyfnod cynefino i wirfoddolwyr. Yn Lloegr, (ond nid yng Nghymru ar hyn o bryd) maen nhw wedi dod yn sail i dystysgrif wirfoddoli achrededig.

Gall y Safonau fod yn ddefnyddiol;

- Fel man cychwyn ar gyfer cynllunio sesiynau cynefino a hyfforddiant i wirfoddolwyr
- I wella cysondeb a safon sesiynau cynefino gwirfoddolwyr
- I sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ddiogel yn yr amgylchedd y byddant yn gwirfoddoli ynddo
- I alluogi dysgu blaenorol gwirfoddolwyr i gael ei gydnabod
- I gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosesau hyfforddi cyffredin rhwng mudiadau
- Fel sail i hyfforddiant diweddaru ar gyfer gwirfoddolwyr profiadol
- Er mwyn i wirfoddolwyr olrhain a datblygu eu gallu eu hunain. Byddant yn darparu rhywfaint o'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer y gwirfoddolwyr sy'n dewis symud i yrfa ym maes iechyd neu ofal

## Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Mae'r naw safon wedi'u hamlinellu'n llawn yn yr adrannau canlynol. Mae pob un yn diffinio'r hyn y mae angen i wirfoddolwr ei wybod a'r hyn y dylai allu ei wneud o ran pob maes ym mhob safon.

Mae'r canllaw wedyn yn awgrymu **adnoddau dysgu i gefnogi'r safonau**. Yn yr adran hon, cewch ddisgrifiad bras a dolenni i hyfforddiant ar-lein am ddim sydd ar gael i wirfoddolwyr gan ddarparwyr cenedlaethol yng Nghymru gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, GIG, Cefnogi Trydydd Sector Cymru, a'r Brifysgol Agored.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i wirfoddolwyr gofrestru ar wefan darparwr yr hyfforddiant er mwyn cyrchu'r cwrs. Yn y pen draw, y mudiad sy'n gyfrifol am wirfoddolwyr fydd yn penderfynu pa hyfforddiant y disgwylir i wirfoddolwr ei gwblhau er mwyn sicrhau diogelwch y gwirfoddolwyr a'r gallu i gyflenwi gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sydd o safon uchel yn gyson.

# Safonau Craidd
## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

| Safon 1: Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 1.1 Rôl | a. Rôl gwirfoddolwr<br>b. Ei ddyletswyddau, ffiniau, cyfrifoldebau a thasgau<br>c. Y safonau, ymddygiadau, gwerthoedd ac arferion sy'n ymwneud â'i rôl ei hun fel gwirfoddolwr<br>d. Cynnwys ei gytundeb gwirfoddoli ei hun sy'n egluro'r disgwyliadau o ran y gydberthynas ddwy ffordd ond heb gontract rhwng mudiad a gwirfoddolwr<br>e. O ble a sut i gael cymorth | a. Cyflawni ei ddyletswyddau ei hun fel gwirfoddolwr<br>b. Ymhél â hyfforddiant, cymorth, goruchwyliaeth, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol, datblygiad parhaus a chyfleoedd i gadw'n gyfredol<br>c. Adnabod ffiniau ei rôl ei hun fel gwirfoddolwr, gan gynnwys o ble y dylai gael cymorth a phryd i ofyn am y cymorth hwn |
| 1.2 Agweddau ar wirfoddoli | a. Gwerthoedd a strwythur y mudiad<br>b. Ble mae'r gwirfoddolwr yn ffitio yn y tîm ehangach<br>c. Yr effaith y gall gwirfoddolwyr ei chael a'r gwahaniaeth y gallant ei wneud<br>d. Cysyniadau cyffredin am wirfoddolwyr gan staff a chan unigolion sy'n derbyn gwasanaethau<br>e. Sut mae rolau gwirfoddolwyr yn ategu rolau staff yn hytrach na'u disodli<br>f. Sut mae rolau gwirfoddolwyr yn cynnig gwerth ychwanegol i unigolion mewn amgylchedd gofal<br>g. Diogelwch personol, osgoi risg ac yswiriant ar gyfer gwirfoddolwyr | a. Cyflawni ei ddyletswyddau o fewn cyd-destun ehangach cyflenwi gwasanaethau<br>b. Bod yn ddiogel yn ei rôl wirfoddoli |
| 1.3 Cydberthnasau | a. Sut mae'r gydberthynas rhwng gwirfoddolwr ac unigolyn yn wahanol i gydberthynas bersonol neu gydberthynas cyflogai | a. Cynnal cydberthynas broffesiynol â staff a'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau |

# Safonau Craidd
## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

| Safon 1: Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 1.1 Rôl | a. Rôl gwirfoddolwr<br>b. Ei ddyletswyddau, ffiniau, cyfrifoldebau a thasgau<br>c. Y safonau, ymddygiadau, gwerthoedd ac arferion sy'n ymwneud â'i rôl ei hun fel gwirfoddolwr<br>d. Cynnwys ei gytundeb gwirfoddoli ei hun sy'n egluro'r disgwyliadau o ran y gydberthynas ddwy ffordd ond heb gontract rhwng mudiad a gwirfoddolwr<br>e. O ble a sut i gael cymorth | a. Cyflawni ei ddyletswyddau ei hun fel gwirfoddolwr<br>b. Ymhél â hyfforddiant, cymorth, goruchwyliaeth, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol, datblygiad parhaus a chyfleoedd i gadw'n gyfredol<br>c. Adnabod ffiniau ei rôl ei hun fel gwirfoddolwr, gan gynnwys o ble y dylai gael cymorth a phryd i ofyn am y cymorth hwn |
| 1.2 Agweddau ar wirfoddoli | a. Gwerthoedd a strwythur y mudiad<br>b. Ble mae'r gwirfoddolwr yn ffitio yn y tîm ehangach<br>c. Yr effaith y gall gwirfoddolwyr ei chael a'r gwahaniaeth y gallant ei wneud<br>d. Cysyniadau cyffredin am wirfoddolwyr gan staff a chan unigolion sy'n derbyn gwasanaethau<br>e. Sut mae rolau gwirfoddolwyr yn ategu rolau staff yn hytrach na'u disodli<br>f. Sut mae rolau gwirfoddolwyr yn cynnig gwerth ychwanegol i unigolion mewn amgylchedd gofal<br>g. Diogelwch personol, osgoi risg ac yswiriant ar gyfer gwirfoddolwyr | a. Cyflawni ei ddyletswyddau o fewn cyd-destun ehangach cyflenwi gwasanaethau<br>b. Bod yn ddiogel yn ei rôl wirfoddoli |
| 1.3 Cydberthnasau | a. Sut mae'r gydberthynas rhwng gwirfoddolwr ac unigolyn yn wahanol i gydberthynas bersonol neu gydberthynas cyflogai | a. Cynnal cydberthynas broffesiynol â staff a'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau |

# Safonau Craidd
## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

| Safon 1: Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| | b. Yr amrediad o gydberthnasau sydd gan unigolyn yn ei rôl fel gwirfoddolwr | |
| 1.4 Partneriaeth | a. Y strwythur cymorth o ran gwirfoddoli<br>b. Yr angen am barch o'r ddwy ochr | a. Bod yn rhan o dîm a gwirfoddoli mewn partneriaeth ag eraill<br>b. Datblygu cydberthnasau allweddol |
| 1.5 Datblygu sgiliau | a. Pam mae'n bwysig cwblhau addysg a hyfforddiant gorfodol cyn ac yn ystod y rôl wirfoddoli<br>b. Pam mae dysgu a datblygu parhaus yn gallu bod yn fuddiol i wirfoddolwyr<br>c. Sut i gael mynediad at gyfleoedd dysgu<br>d. Sut i ddatblygu sgiliau drwy gymorth cymheiriaid<br>e. Pryd i ofyn am gymorth ar gyfer dysgu a datblygu<br>f. Sut i fyfyrio ar ddysgu, gan ddefnyddio tystiolaeth o'i rôl wirfoddoli ei hun i lywio'i ddatblygiad<br>g. Sut gall gwirfoddoli gynorthwyo rhywun i gael gyrfa ym maes iechyd a gofal os dymunir | a. Datblygu ei wybodaeth, sgiliau a'i ddealltwriaeth ei hun<br>b. Gofyn am gymorth priodol gyda dysgu a datblygu yn ei rôl a lleoliad, gan gynnwys cymorth cymheiriaid<br>c. Myfyrio ar ei gynnydd ei hun |
| 1.6 Straen | a. Arwyddion o straen yn ei hun ac mewn eraill<br>b. Nodi amgylchiadau sy'n dueddol o beri straen iddo ef ei hun<br>c. Ffyrdd o reoli straen<br>d. Sut ac o ble i gael cymorth os yw'n teimlo dan straen | a. Adnabod pan mae o dan bwysau<br>b. Gofyn am help pan mae o dan bwysau |

# Safonau Craidd
## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

| Safon 1: Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| | b. Yr amrediad o gydberthnasau sydd gan unigolyn yn ei rôl fel gwirfoddolwr | |
| 1.4 Partneriaeth | a. Y strwythur cymorth o ran gwirfoddoli<br>b. Yr angen am barch o'r ddwy ochr | a. Bod yn rhan o dîm a gwirfoddoli mewn partneriaeth ag eraill<br>b. Datblygu cydberthnasau allweddol |
| 1.5 Datblygu sgiliau | a. Pam mae'n bwysig cwblhau addysg a hyfforddiant gorfodol cyn ac yn ystod y rôl wirfoddoli<br>b. Pam mae dysgu a datblygu parhaus yn gallu bod yn fuddiol i wirfoddolwyr<br>c. Sut i gael mynediad at gyfleoedd dysgu<br>d. Sut i ddatblygu sgiliau drwy gymorth cymheiriaid<br>e. Pryd i ofyn am gymorth ar gyfer dysgu a datblygu<br>f. Sut i fyfyrio ar ddysgu, gan ddefnyddio tystiolaeth o'i rôl wirfoddoli ei hun i lywio'i ddatblygiad<br>g. Sut gall gwirfoddoli gynorthwyo rhywun i gael gyrfa ym maes iechyd a gofal os dymunir | a. Datblygu ei wybodaeth, sgiliau a'i ddealltwriaeth ei hun<br>b. Gofyn am gymorth priodol gyda dysgu a datblygu yn ei rôl a lleoliad, gan gynnwys cymorth cymheiriaid<br>c. Myfyrio ar ei gynnydd ei hun |
| 1.6 Straen | a. Arwyddion o straen yn ei hun ac mewn eraill<br>b. Nodi amgylchiadau sy'n dueddol o beri straen iddo ef ei hun<br>c. Ffyrdd o reoli straen<br>d. Sut ac o ble i gael cymorth os yw'n teimlo dan straen | a. Adnabod pan mae o dan bwysau<br>b. Gofyn am help pan mae o dan bwysau |

# Safonau Craidd
## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

| Safon 1: Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 1.7 Diogelwch personol | a. Y mesurau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau ei ddiogelwch ei hun wrth wirfoddoli, a diogelwch y rheini y mae'n eu cefnogi<br>b. Proses y mudiad ar gyfer gwirio pwy yw unrhyw un sy'n gofyn am fynediad i safle neu wybodaeth | a. Cadw'n ddiogel yn yr amgylchedd gwaith<br>b. Cadw eraill yn ddiogel yn yr amgylchedd gwaith |

WWW

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae hwn yn gymwys i staff, ond hefyd yn ganllaw defnyddiol ar gyfer gwirfoddolwyr
Cod ymarfer proffesiynol

Deall egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r adnoddau'n cynnwys y llyfr gwaith 'Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi?'
Egwyddorion y Deddf

# Safonau Craidd
## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

| Safon 1: Eich Rôl a'ch Cyfrifoldebau | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 1.7 Diogelwch personol | a. Y mesurau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau ei ddiogelwch ei hun wrth wirfoddoli, a diogelwch y rheini y mae'n eu cefnogi<br>b. Proses y mudiad ar gyfer gwirio pwy yw unrhyw un sy'n gofyn am fynediad i safle neu wybodaeth | a. Cadw'n ddiogel yn yr amgylchedd gwaith<br>b. Cadw eraill yn ddiogel yn yr amgylchedd gwaith |

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae hwn yn gymwys i staff, ond hefyd yn ganllaw defnyddiol ar gyfer gwirfoddolwyr
Cod ymarfer proffesiynol

Deall egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r adnoddau'n cynnwys y llyfr gwaith 'Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi?'
Egwyddorion y Deddf

# Safonau Craidd
## Cyfathrebu

| Safon 2: Cyfathrebu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 2.1 Cyfathrebu geiriol, dieiriau | a. Sut i gael mynediad at hyfforddiant ar sgiliau cyfathrebu<br>b. Y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu â'i gilydd<br>c. Sut mae cyfathrebu'n effeithio ar gydberthnasau<br>d. Ffyrdd o adnabod anghenion, dymuniadau a hoffterau unigolyn o ran cyfathrebu ac iaith<br>e. Cyfathrebu geiriol, gan gynnwys tôn ac uchder, jargon, bratiaith<br>f. Cyfathrebu dieiriau, gan gynnwys lleoliad/agosrwydd, cyswllt llygad, iaith y corff, cyffyrddiad, arwyddion, symbolau a lluniau, ysgrifennu a gwrthrychau cyfeirio<br>g. Defnyddio cymhorthion dynol a thechnegol, e.e. cymhorthion clyw, cardiau â lluniau arnyn nhw<br>h. Sut i wirio dealltwriaeth<br>i. Ble gallai cyfathrebu ddigwydd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy neges destun, e-bost, ar y rhyngrwyd neu rwydweithiau cymdeithasol, ar ffurf adroddiadau neu lythyrau ysgrifenedig, ystyried effaith gwahanol ddulliau | a. Defnyddio cyfathrebu geiriol a dieiriau priodol<br>b. Adrodd unrhyw bryderon ynghylch cyfathrebu, cymhorthion cyfathrebu neu dechnoleg gyfathrebu i'r unigolyn priodol. Gallai hyn gynnwys aelod o'r staff, gofalwr neu aelod o'r teulu<br>c. Ymateb i anghenion, dymuniadau a hoffterau'r unigolyn o ran iaith a chyfathrebu |

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

# Safonau Craidd
## Cyfathrebu

| Safon 2: Cyfathrebu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 2.1 Cyfathrebu geiriol, dieiriau | a. Sut i gael mynediad at hyfforddiant ar sgiliau cyfathrebu<br>b. Y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu â'i gilydd<br>c. Sut mae cyfathrebu'n effeithio ar gydberthnasau<br>d. Ffyrdd o adnabod anghenion, dymuniadau a hoffterau unigolyn o ran cyfathrebu ac iaith<br>e. Cyfathrebu geiriol, gan gynnwys tôn ac uchder, jargon, bratiaith<br>f. Cyfathrebu dieiriau, gan gynnwys lleoliad/agosrwydd, cyswllt llygad, iaith y corff, cyffyrddiad, arwyddion, symbolau a lluniau, ysgrifennu a gwrthrychau cyfeirio<br>g. Defnyddio cymhorthion dynol a thechnegol, e.e. cymhorthion clyw, cardiau â lluniau arnyn nhw<br>h. Sut i wirio dealltwriaeth<br>i. Ble gallai cyfathrebu ddigwydd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy neges destun, e-bost, ar y rhyngrwyd neu rwydweithiau cymdeithasol, ar ffurf adroddiadau neu lythyrau ysgrifenedig, ystyried effaith gwahanol ddulliau | a. Defnyddio cyfathrebu geiriol a dieiriau priodol<br>b. Adrodd unrhyw bryderon ynghylch cyfathrebu, cymhorthion cyfathrebu neu dechnoleg gyfathrebu i'r unigolyn priodol. Gallai hyn gynnwys aelod o'r staff, gofalwr neu aelod o'r teulu<br>c. Ymateb i anghenion, dymuniadau a hoffterau'r unigolyn o ran iaith a chyfathrebu |

# Safonau Craidd

## Cyfathrebu

| Safon 2: Cyfathrebu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 2.2 Cyfrinachedd | a. Beth mae cyfrinachedd yn ei olygu o ran ei rôl ei hun<br>b. Ffyrdd o gadw cyfrinachedd mewn cyfathrebu beunyddiol<br>c. Sefyllfaoedd lle gallai fod angen rhannu gwybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei hystyried yn gyfrinachol<br>d. Pwy ddylai ofyn iddo am gyngor a chymorth ynghylch cyfrinachedd | a. Cadw cyfrinachedd yn unol â pholisi'r mudiad ac egwyddorion cenedlaethol allweddol |
| 2.3 Caniatâd | a. Beth mae caniatâd yn ei olygu o ran ei rôl ei hun<br>b. Ffyrdd o gael caniatâd<br>c. O ble a sut i gael cyngor ar ganiatâd | a. Cael caniatâd gan yr unigolyn cyn cyflawni ei rôl wirfoddoli |
| 2.4 Sylwadau a chwynion | a. Pwy ddylid gofyn iddo am gyngor a chymorth wrth ymateb i sylwadau a chwynion<br>b. Pwysigrwydd dysgu o sylwadau a chwynion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth | a. Ymateb i sylwadau a chwynion ac adrodd arnyn nhw yn unol â pholisi'r mudiad |
| 2.5 Datrys gwrthdaro | a. Edrych ar amrediad o ffactorau a sefyllfaoedd anodd a allai achosi gwrthdaro<br>b. Sut gellir defnyddio cyfathrebu i ddatrys problemau a lleihau'r tebygolrwydd o wrthdaro neu ei effaith<br>c. Pwysigrwydd gonestrwydd, gan gynnwys nodi ble gallai camgymeriadau fod wedi digwydd, a rhoi gwybod i'r unigolyn priodol<br>d. Y broses ar gyfer adrodd ac uwchgyfeirio pryderon | a. Asesu a lleihau risgiau mewn sefyllfaoedd o wrthdaro o fewn ffiniau eich rôl eich hun<br>b. Adrodd achosion o wrthdaro yn unol â pholisi'r mudiad<br>c. Gofyn am gymorth a chyngor ynghylch datrys gwrthdaro |

# Safonau Craidd
## Cyfathrebu

| Safon 2: Cyfathrebu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 2.2 Cyfrinachedd | a. Beth mae cyfrinachedd yn ei olygu o ran ei rôl ei hun<br>b. Ffyrdd o gadw cyfrinachedd mewn cyfathrebu beunyddiol<br>c. Sefyllfaoedd lle gallai fod angen rhannu gwybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei hystyried yn gyfrinachol<br>d. Pwy ddylai ofyn iddo am gyngor a chymorth ynghylch cyfrinachedd | a. Cadw cyfrinachedd yn unol â pholisi'r mudiad ac egwyddorion cenedlaethol allweddol |
| 2.3 Caniatâd | a. Beth mae caniatâd yn ei olygu o ran ei rôl ei hun<br>b. Ffyrdd o gael caniatâd<br>c. O ble a sut i gael cyngor ar ganiatâd | a. Cael caniatâd gan yr unigolyn cyn cyflawni ei rôl wirfoddoli |
| 2.4 Sylwadau a chwynion | a. Pwy ddylid gofyn iddo am gyngor a chymorth wrth ymateb i sylwadau a chwynion<br>b. Pwysigrwydd dysgu o sylwadau a chwynion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth | a. Ymateb i sylwadau a chwynion ac adrodd arnyn nhw yn unol â pholisi'r mudiad |
| 2.5 Datrys gwrthdaro | a. Edrych ar amrediad o ffactorau a sefyllfaoedd anodd a allai achosi gwrthdaro<br>b. Sut gellir defnyddio cyfathrebu i ddatrys problemau a lleihau'r tebygolrwydd o wrthdaro neu ei effaith<br>c. Pwysigrwydd gonestrwydd, gan gynnwys nodi ble gallai camgymeriadau fod wedi digwydd, a rhoi gwybod i'r unigolyn priodol<br>d. Y broses ar gyfer adrodd ac uwchgyfeirio pryderon | a. Asesu a lleihau risgiau mewn sefyllfaoedd o wrthdaro o fewn ffiniau eich rôl eich hun<br>b. Adrodd achosion o wrthdaro yn unol â pholisi'r mudiad<br>c. Gofyn am gymorth a chyngor ynghylch datrys gwrthdaro |

# Safonau Craidd
## Cyfathrebu

| Safon 2: Cyfathrebu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 2.6 Trin gwybodaeth | a. Pam mae'n bwysig cael systemau cadarn ar gyfer cofnodi, storio, adrodd a rhannu gwybodaeth<br>b. Y weithdrefn gofnodi ar gyfer trin gwybodaeth yn y mudiad<br>c. Gweithdrefn y mudiad ar gyfer adrodd digwyddiadau<br>d. Pam mae'n bwysig peidio â datgelu unrhyw beth ynghylch yr unigolyn y gallai fod eisiau ei gadw'n breifat, oni bai ei fod yn briodol i wneud hynny<br>e. Gallai hyn gynnwys<br>• cyflwr iechyd<br>• cyfeiriadedd rhywiol<br>• hanes personol<br>• amgylchiadau cymdeithasol<br>f. Pam mae'n bwysig cadw ffiniau o ran data personol, gan gynnwys ei ddata ei hun, fel cyfryngau cymdeithasol, rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost | a. Cofnodi, storio, adrodd a rhannu gwybodaeth yn unol â pholisi'r mudiad a ffiniau ei rôl ei hun<br>b. Cadw cyfrinachedd wrth drin gwybodaeth |

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Modiwlau dysgu gan CBAC/City and Guilds, i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:

Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol
Nodweddion cyfathrebu effeithiol
Sut i gyfathrebu'n effeithiol
Anghenion cyfathrebu ac iaith
Rhwystrau i gyfathrebu da

Modiwl GIG Cymru:
Llywodraethu Gwybodaeth Lefel 1

# Safonau Craidd
## Parchu pawb

| Safon 3: Parchu pawb (cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant) | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 3.1 Cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | a. Beth a olygir wrth gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br>b. Beth a olygir wrth amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant<br>c. Beth a olygir wrth wahaniaethu<br>d. Ffyrdd y gall gwahaniaethu ddigwydd yn fwriadol neu'n anfwriadol mewn mudiad a rhwng unigolion<br>e. Sut mae arferion sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn lleihau'r tebygolrwydd o wahaniaethu<br>f. Amrediad o ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys golau, sŵn, tymheredd ac arogleuon annymunol, sy'n gallu cyfrannu at brofiad negyddol i unigolyn. | a. Cefnogi'r unigolyn sy'n defnyddio gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, drwy hybu:<br>• Unigolrwydd<br>• Annibyniaeth<br>• Preifatrwydd<br>• Partneriaeth<br>• Dewis<br>• Urddas<br>• Parch<br>• Hawliau<br>b. Lleisio pryderon ynghylch ffactorau amgylcheddol sy'n achosi anesmwythder neu ofid<br>c. Adrodd i aelod o staff ar unwaith os yw unigolyn mewn gofid neu anesmwythder |
| 3.2 Cynwysoldeb | a. Pa ddeddfwriaeth a pholisïau yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a gwahaniaethu sy'n berthnasol i'w rôl ei hun<br>b. Sut i herio gwahaniaethu mewn modd sy'n annog newid cadarnhaol<br>c. Sut gall ei brofiadau, ymarweddiad a'i gredoau ei hun effeithio ar sut mae'n gwirfoddoli<br>d. Sut, pryd a ble i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant<br>e. Pryd i ofyn am gyngor a chymorth os yw'n profi gwahaniaethu ei hun<br>f. Sut i adrodd os yw'n gweld pobl eraill yn cael eu gwahaniaethu | a. Gwirfoddoli mewn modd cynhwysol<br>b. Rhyngweithio ag unigolion mewn modd sy'n parchu eu credoau, diwylliant, gwerthoedd a'u hoffterau |

# Safonau Craidd
## Parchu pawb

| Safon 3: Parchu pawb (cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant) | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 3.3 Preifatrwydd ac urddas | What is meant by privacy and dignity<br><br>a. Beth a olygir wrth breifatrwydd ac urddas<br>b. Sefyllfaoedd lle y gellid peryglu preifatrwydd ac urddas unigolyn<br>c. Sut i gadw preifatrwydd ac urddas yn ei rôl fel gwirfoddolwr<br>d. Pam mae'n bwysig peidio â datgelu unrhyw beth ynghylch yr unigolyn y gallai fod eisiau ei gadw'n breifat, oni bai ei fod yn briodol i wneud hynny.<br>e. Gallai hyn gynnwys<br>• cyflwr iechyd<br>• cyfeiriadedd rhywiol<br>• hanes personol<br>• amgylchiadau cymdeithasol<br>f. Pam mae'n bwysig cadw ffiniau o ran data personol, gan gynnwys ei ddata ei hun, fel cyfryngau cymdeithasol, rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost | Cadw preifatrwydd ac urddas drwy<br><br>a. ddefnyddio uchder priodol i drafod anghenion unigolyn<br>b. sicrhau bod unrhyw drafodaeth yn cael ei chynnal mewn amgylchedd ble na all eraill ei chlywed cael caniatâd cyn mynd i mewn i ofod personol rhywun<br>c. rhybuddio unigolion cyn mynd i mewn i'w gofod preifat<br>d. rhybuddio staff perthnasol er mwyn ail-ddodi unrhyw ddillad ac ati yn gywir<br>e. peidio â chyffwrdd ag eiddo'r claf heb ei ganiatâd<br>f. adrodd pryderon i'r aelod staff perthnasol ar unwaith |

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Modiwlau dysgu gan CBAC/City and Guilds:
Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu

Modiwl GIG Cymru:
Trin fi'n Deg (cydraddoldeb) Lefel 1

# Safonau Craidd
## Diogelu

| Safon 4: Diogelu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 4.1 Egwyddorion diogelu oedolion | a. Y term diogelu oedolion<br>b. Ei rôl a'i gyfrifoldebau ei hun o ran diogelu unigolion<br>c. Y prif fathau o gam-drin<br>d. Beth sy'n cael ei ystyried yn niwed<br>e. Pam all unigolyn fod yn agored i niwed neu gam-drin<br>f. Beth sy'n cael ei ystyried yn arferion cyfyngol<br>g. Amrediad o arwyddion cam-drin posibl<br>h. Natur a chwmpas y niwed i unigolion mewn perygl a'r gamdriniaeth o'r unigolion hyn<br>i. Amrediad o ffactorau sydd wedi ymddangos mewn achosion o gam-drin ac esgeuluso oedolion a phlant<br>j. Pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn cael eu trin ag urddas a pharch wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal<br>k. O ble i gael gwybodaeth a chyngor ynghylch ei rôl a'i gyfrifoldebau o ran atal unigolion rhag cael eu niweidio a'u cam-drin a diogelu'r unigolion hyn | a. Nodi ac adrodd pryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |
| 4.2 Egwyddorion diogelu plant | a. Y safonau hyfforddi gofynnol cenedlaethol diweddaraf ar gyfer Diogelu Plant ar Lefel 1*<br>b. Y cysyniad o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant ac arwyddion posibl fod hyn yn digwydd | a. Nodi ac adrodd pryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |

*** fel y nodwyd yn y canllawiau rhyng-golegol a gyhoeddwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant**

# Safonau Craidd
## Diogelu

| Safon 4: Diogelu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 4.3 Lleihau'r tebygolrwydd o gam-drin | a. Sut gall amgylcheddau gwasanaeth hybu neu danseilio urddas a hawliau pobl<br>b. Pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br>c. Sut i helpu unigolion i gadw eu hunain yn ddiogel<br>d. Ffyrdd o leihau'r tebygolrwydd o gam-drin drwy reoli risg a chanolbwyntio ar atal<br>e. Sut mae gweithdrefn gwyno eglur yn lleihau'r tebygolrwydd o gam-drin | a. Nodi ac adrodd ar bryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |
| 4.4 Ymateb i gam-drin a amheuir neu a ddatgelir | a. Beth i'w wneud os oes amheuaeth o gam-drin; gan gynnwys sut i leisio pryderon o fewn polisïau a gweithdrefnau 'rhyddid i ddweud eich dweud' lleol<br>b. Pwysigrwydd adrodd pryderon i aelodau staff priodol a'u huwchgyfeirio os oes angen | a. Nodi ac adrodd ar bryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |
| 4.5 Diogelwch lleol a chenedlaethol | a. Deddfwriaeth, polisïau lleol a chenedlaethol a gweithdrefnau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu oedolion a phlant<br>b. Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gyda phobl berthnasol eraill<br>c. Y camau i'w cymryd os bydd yn wynebu rhwystrau wrth rybuddio neu atgyfeirio at bobl berthnasol eraill | a. Nodi ac adrodd ar bryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |

# Safonau Craidd
## Diogelu

| Safon 4: Diogelu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 4.6 Strategaeth atal | a. Amcanion y strategaeth Atal<br>b. Sut gall gwirfoddolwyr gefnogi Atal<br>c. Y ffactorau sy'n gallu peri i unigolyn fod yn fwy tebygol o gael ei radicaleiddio neu i fod yn risg i eraill<br>d. Pa gamau i'w cymryd os oes gan y gwirfoddolwr bryderon ynghylch unigolyn neu unigolion<br>e. Beth sy'n gwneud rhywun yn agored i niwed<br>f. Sut gall unigolion gael eu dylanwadu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol<br>g. Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a'r canlyniadau o fethu â gwneud hynny | a. Nodi ac adrodd ar bryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |
| 4.7 Dyletswydd Gofal | a. Beth a olygir wrth ddyletswydd gofal<br>b. Beth i'w wneud os bydd yn wynebu gwrthdaro a phenbleth fel rhan o'i rôl<br>c. O ble i gael cymorth a chyngor ynghylch sut i reoli'r sefyllfaoedd hyn | a. Nodi ac adrodd ar bryderon; peidio â chymryd camau nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |

WWW

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Pecyn hyfforddiant sylfaenol Cymru gyfan ar ddiogelu
Gweithdrefnau diogelu Cymru
Cyflwyniad i ddiogelu yn y sector gwirfoddol (Cymru)

Modiwlau GIG:
Diogelu pobl - Lefel 1
Pasbort Hyfforddi Cymru Gyfan ar Drais ac Ymddygiad Ymosodol
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

# Safonau Craidd
## Iechyd Meddwl, Dementia ac Anabledd Dysgu

| Safon 5: Iechyd Meddwl, Dementia ac Anabledd Dysgu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 5.1 Iechyd Meddwl | a. Sut gall rhywun deimlo os oes ganddo gyflyrau iechyd meddwl fel seicosis, iselder neu orbryder<br>b. Y gall problemau fod yn ffisegol, yn gymdeithasol neu'n seicolegol a gall effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd<br>c. Pam mae'n bwysig deall achosion cyflyrau iechyd meddwl a bod gan y bobl sy'n ddioddef ohonyn nhw anghenion cymorth gwahanol<br>d. Sut bydd ymagweddau cadarnhaol tuag at y rheini â chyflyrau iechyd meddwl yn gwella'r gofal a'r cymorth y byddant yn eu derbyn<br>e. Ffyrdd y gallai fod angen gwneud addasiadau i'r ffordd y darperir gofal ar gyfer rhywun â chyflyrau iechyd meddwl<br>f. Sut i adrodd pryderon sy'n gysylltiedig ag unrhyw anghenion nas diwallwyd a all godi yn sgil cyflwr iechyd meddwl unigolyn | a. Nodi ffynonellau o gymorth ar gyfer unigolyn â diagnosis o anhwylder meddwl<br>b. Cymhwyso egwyddorion er mwyn gwella'r rhyngweithio ag unigolion ag anghenion iechyd meddwl |
| 5.2 Dementia | a. Sut gall rhywun deimlo os oes ganddo ddementia<br>b. Pam mae'n bwysig deall fod achosion dementia ac anghenion gofal pobl â dementia'n wahanol<br>c. Sut bydd ymagweddau cadarnhaol tuag at y rheini â dementia yn gwella'r gofal a'r cymorth y byddant yn eu derbyn<br>d. Ffyrdd y gallai fod angen gwneud addasiadau i'r ffordd y darperir gofal ar gyfer rhywun â dementia<br>e. Sut i adrodd pryderon sy'n gysylltiedig ag unrhyw anghenion nas diwallwyd a all godi yn sgil dementia unigolyn | a. Nodi ffynonellau o gymorth ar gyfer unigolyn â diagnosis o ddementia<br>b. Cymhwyso egwyddorion er mwyn gwella'r rhyngweithio ag unigolion â dementia |

# Safonau Craidd
## Iechyd Meddwl, Dementia ac Anabledd Dysgu

| Safon 5: Iechyd Meddwl, Dementia ac Anabledd Dysgu | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 5.3 Anabledd Dysgu | a. Sut gall rhywun deimlo os oes ganddo anabledd dysgu<br>b. Pam mae'n bwysig deall fod achosion anableddau dysgu a'u hanghenion cymorth yn wahanol<br>c. Sut bydd ymagweddau cadarnhaol tuag at bobl ag anableddau dysgu yn gwella'r gofal a'r cymorth y byddant yn eu derbyn<br>d. Ffyrdd y gallai fod angen gwneud addasiadau i'r ffordd y darperir gofal ar gyfer rhywun ag anabledd dysgu<br>e. Sut i adrodd pryderon sy'n gysylltiedig ag unrhyw anghenion nas diwallwyd a all godi yn sgil anabledd dysgu unigolyn | a. Nodi ffynonellau o gymorth ar gyfer unigolyn â diagnosis o anabledd dysgu<br>b. Cymhwyso egwyddorion er mwyn gwella'r rhyngweithio ag unigolion ag anabledd dysgu |

WWW

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Cyfathrebu'n effeithiol â phobl â dementia

Modiwl dysgu gan CBAC/City and Guilds:
Salwch meddwl

Modiwl GIG Cymru:
Ymwybyddiaeth o Ddementia

Modiwl gan y Paul Ridd Foundation a gyflwynir gan GIG Cymru:
Ymwybyddiaeth sylfaenol o anableddau dysgu

Amrediad o adnoddau gan gynnwys fideos gan y Gymdeithas Alzheimer:
Cyfeillion Dementia

# Safonau Craidd
## Iechyd a Diogelwch

| Safon 6: Iechyd a Diogelwch | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 6.1 Iechyd a diogelwch | a. Prif bwyntiau'r polisïau a'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'i rôl ei hun<br>b. Y prif dasgau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch na ddylid eu cyflawni heb hyfforddiant arbennig<br>c. Sut i gael gafael ar gymorth a gwybodaeth ychwanegol ynghylch iechyd a diogelwch<br>d. Pam mae'n bwysig asesu'r risgiau iechyd a diogelwch mewn lleoliadau, sefyllfaoedd neu weithgareddau<br>e. Sut a phryd i adrodd risgiau a phroblemau iechyd a diogelwch y mae wedi'i weld<br>f. Sut i gael gafael ar gymorth mewn argyfwng<br>g. Y camau y dylid eu cymryd i gadw'i hun yn ddiogel wrth wirfoddoli | a. Adnabod peryglon cyffredin |
| 6.2 Atal heintiau | a. Sut i atal a rheoli lledaeniad heintiau<br>b. Beth i'w wneud os yw'n sâl ei hun<br>c. Firysau cyffredin a sut cânt eu lledaenu mewn lleoliad gwasanaeth<br>d. Pwysigrwydd hylendid dwylo, gan gynnwys dulliau, pa mor aml y dylid eu golchi a diheintio dwylo<br>e. Polisi noeth islaw'r penelinoedd mewn lleoliadau iechyd a gofal<br>f. Ffyrdd o gadw'n ddiogel yn y lleoliadau y mae'n gwirfoddoli. Gallai hyn hynnwys cydnabod arwyddion, ynysu amddiffynol neu ddefnyddio cyfarpar diogelu personol | a. Osgoi lledaenu heintiau<br>b. Ymarfer hylendid dwylo effeithiol |

# Safonau Craidd
## Iechyd a Diogelwch

| Safon 6: Iechyd a Diogelwch | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| | g. Pryd dylid gofyn am gyngor ac arweiniad a chan bwy | |
| 6.3 Sylweddau peryglus | a. Amrediad o sylweddau peryglus, gan gynnwys cynnyrch glanhau y gellid ei ddefnyddio yn y lleoliad y mae'n gwirfoddoli<br>b. Arferion diogel ar gyfer storio, defnyddio a chael gwared ar sylweddau peryglus yn y lleoliad y mae'n gwirfoddoli | a. Adnabod sylweddau peryglus |
| 6.4 Tân | a. Nodweddion tân, mwg a mygdarthau gwenwynig<br>b. Y prif beryglon tân yn ei amgylchedd gwirfoddoli<br>c. Diogelwch tân sylfaenol a phrotocolau diogelwch tân<br>d. Pa gamau dylai eu cymryd fel gwirfoddolwr pe bai tân | a. Atal tanau rhag dechrau a lledaenu<br>b. Ymarfer a hyrwyddo camau atal tân |
| 6.5 Digwyddiadau | a. Sut i adnabod achlysuron niweidiol, digwyddiadau, camgymeriadau a digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd<br>b. Beth ddylai ei wneud a pheidio â'i wneud mewn perthynas ag achlysuron niweidiol, digwyddiadau, camgymeriadau a digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd<br>c. Prif bolisïau'r mudiad o ran adrodd unrhyw achlysuron niweidiol, digwyddiadau, camgymeriadau a digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd | a. Nodi ac adrodd pryderon; peidio â chymryd camau gweithredu nac ymchwilio ymhellach i'r rhain |

# Safonau Craidd
## Iechyd a Diogelwch

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Modiwlau GIG Cymru:
Iechyd a diolgelwch - Lefel 1
Atal a rheoli heintiau - Lefel 1
Ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân

# Safonau Ychwanegol
## Hylifau a Maetheg

| Safon 7: Hylifau a Maetheg | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 7.1 Defnyddio cynlluniau gofal | a. Pwysigrwydd dilyn cynlluniau gofal a chanllawiau'r tîm gofal<br>b. Beth a olygir wrth dim trwy'r geg<br>c. I bwy y dylid adrodd pryderon, gan gynnwys aelodau staff, gofalwyr neu aelodau o'r teulu<br>d. Gofynion maethol arbennig megis deietau diabetig | a. Cael neu ofyn am gyfarwyddiadau arbennig gan aelod o'r staff ynghylch hylifau neu faethiad<br>b. Cynorthwyo ac annog unigolion i gael mynediad at hylifau a maethiad yn unol â'u cynlluniau gofal<br>c. Cynorthwyo ac annog unigolion i yfed yn unol â'u cynlluniau gofal |
| 7.2 Mynediad at hylifau | a. Pwysigrwydd cael mynediad at hylifau o ran llesiant a chadw'n iach<br>b. Pwysigrwydd diogelwch bwyd, gan gynnwys hylendid wrth baratoi a thrafod diodydd, a gwisgo dillad diogelu personol priodol<br>c. Arwyddion a symptomau hydradu gwael<br>d. Ffyrdd y gall hyrwyddo hydrad digonol<br>e. Pwysigrwydd diogelwch gyda diodydd poeth | a. Gwirio bod diodydd o fewn cyrraedd y rheini sydd â chyfyngiadau symud/symudedd<br>b. Gwirio bod diodydd yn cael eu hailgyflenwi'n rheolaidd<br>c. Gwirio tymheredd diodydd |
| 7.3 Mynediad at faethiad | a. Pwysigrwydd cael mynediad at faethiad o ran llesiant a chadw'n iach<br>b. Pwysigrwydd diogelwch bwyd, gan gynnwys hylendid wrth baratoi a thrafod bwyd a gwisgo dillad diogelu personol priodol<br>c. Arwyddion a symptomau maethiad gwael<br>d. Ffyrdd o hyrwyddo maethiad digonol | a. Gwirio bod cynnyrch maethol o fewn cyrraedd y rheini sydd â chyfyngiadau symud/symudedd<br>b. Gwirio bod llestri priodol ar gael i alluogi'r unigolyn i ddiwallu ei anghenion maethol mor annibynnol â phosibl |

# Safonau Ychwanegol
## Hylifau a Maetheg

WWW

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Modiwl GIG Cymru:
Hylifau a maeth

# Safonau Ychwanegol
## Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS)

| Safon 8: Cynnal Bywyd Sylfaenol | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 8.1 Cynnal Bywyd Sylfaenol | a. Cwblhau Hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ymarferol sy'n bodloni gofynion Cyngor Dadebru'r DU yn unol ag argymhellion eich rheolwr. **<br>b. Os yw'n gwirfoddoli gydag oedolion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, bydd yn cwblhau hyfforddiant mewn cynnal bywyd sylfaenol oedolion.<br>c. Os yw'n gwirfoddoli gyda chleifion pediatreg ym maes iechyd, bydd yn cwblhau hyfforddiant mewn cynnal bywyd sylfaenol pediatreg.<br>d. Os yw'n gwirfoddoli gyda chleifion newydd-anedig, bydd yn cwblhau hyfforddiant mewn cynnal bywyd y newydd-anedig.<br>e. Gwybod beth i'w wneud os oes angen help arnynt | a. Gwneud tasgau cynnal bywyd sylfaenol fel y'i cynghorir gan staff y lleoliad y mae'n gwirfoddoli ynddo |

** **Canllawiau:**

- Diweddaraf Canllawiau Dadebru'r Cyngor Dadebru (Saesneg yn unig)
- **Dadebru Cardio-anadlol -** Safonau ar gyfer arferion a hyfforddiant clinigol (Saesneg yn unig)

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Modiwl GIG Cymru:
Dadebru – Lefel 1

# **Safonau Ychwanegol**
## Symud a Chynorthwyo

| Safon 9: Symud a Chynorthwyo | | |
|---|---|---|
| Maes | Mae'r gwirfoddolwr yn gwybod ac yn deall: | Mae'r gwirfoddolwr yn gallu: |
| 9.1 Symud a chynorthwyo'n ddiogel | a. Darnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â symud a chynorthwyo<br>b. Camau i godi a chario'n ddiogel<br>c. Anafiadau cyffredin a gofal cefn iach<br>d. Tasgau sy'n ymwneud â symud a chynorthwyo na chaiff ei wneud heb hyfforddiant arbennig | a. Symud a chynorthwyo pobl a gwrthrychau'n ddiogel, gan gadw urddas yr unigolyn, ac yn unol â pholisi'r mudiad |

### Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safon

Modiwl GIG Cymru:
Codi a Chario Modiwl A - Lefel 1

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau

## Safon 1: Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

**Cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol**
**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau

Mae hwn yn gymwys i staff, ond hefyd yn ganllaw defnyddiol ar gyfer gwirfoddolwyr

---

**Deall egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**
**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/egwyddorion-y-ddeddf

Mae'r adnoddau'n cynnwys y llyfr gwaith 'Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi?

## Safon 2: Cyfathrebu

**Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol**
**CBAC/City and Guilds**
http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-1/_multi-lang/unit07/1-effective-communication-for-wellbeing.html

Modiwl dysgu byr i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

---

**Nodweddion cyfathrebu effeithiol**
**CBAC/City and Guilds**
http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-1/_multi-lang/unit07/2-key-features-of-effective-communication.html

Modiwl dysgu byr, i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau
## Safon 2: Cyfathrebu

### Sut i gyfathrebu'n effeithiol
**CBAC/City and Guilds**
http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-1/_multi-lang/unit07/3-skills-needed-to-communicate-effectively.html

Modiwl dysgu byr, i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

---

### Anghenion cyfathrebu ac iaith
**CBAC/City and Guilds**
http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-1/_multi-lang/unit07/4-communication-and-language-needs.html

Modiwl dysgu byr, i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

---

### Rhwystrau i gyfathrebu da
**CBAC/City and Guilds**
http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-1/_multi-lang/unit07/5-potential-barriers.html

Modiwl dysgu byr, i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

---

### Llywodraethu Gwybodaeth (Lefel 1)
**GIG Cymru**
learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau

## Safon 3: Parch tuag at bawb

### Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu

**CBAC/City and Guilds**

http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-1/_multi-lang/unit04/1-equality-diversity-inclusion-and-discrimination.html

Modiwl dysgu, i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

### Trin fi'n Deg (Cydraddoldeb) Lefel1

**GIG Cymru**

https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Deall sut gellir hyrwyddo dull cadarnhaol o gyflawni cydraddoldeb ac amrywiaeth a hawliau dynol drwy ymddygiadau personol a rolau. Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

## Safon 4: Diogelu

### Pecyn hyfforddiant sylfaenol Cymru gyfan ar ddiogelu

**Cymdeithas Gofal Cymru**

https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/diogelu

Adnoddau i ddysgwyr ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

### Diogelu unigolion

**CBAC/City and Guilds**

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/l2-igc-craidd-uned-006-diogelu-unigolion/

Uned graidd ar gyfer dysgu iechyd a gofal i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau
## Standard 4: Safeguarding

**Gweithdrefnau diogelu Cymru**
**Diogelu Cymru**
https://www.diogelu.cymru/

---

**Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/view.php?id=1410

---

**Cyflwyniad i ddiogelu yn y sector gwirfoddol (Cymru)**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**
https://thirdsectorsupport.wales/cy/courses/cyflwyniad-i-ddiogelu-yn-y-sector-gwirfoddol-cymru/

---

**Diogelu pobl (Lefel 1)**
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Hyfforddiant craidd gorfodol ar gyfer y rheini sy'n gweithio o fewn y GIG Cymru

---

**Pasbort Hyfforddi Cymru Gyfan ar Drais ac Ymddygiad Ymosodol**
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/search.php?search=violence+and+aggression+Module+B

Modiwl A a B - hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG Cymru

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau
## Safon 5 : Iechyd Meddwl, Dementia ac Anabledd Dysgu

### Cyfathrebu'n effeithiol â phobl â dementia
**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/cyfathrebun-effeithiol-%C3%A2-phobl-%C3%A2-dementia

Canllawiau ac adnoddau ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

---

### Salwch Meddwl
**CBAC/City and Guilds**
http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_2-3/_multi-lang/unit14/1-mental-ill-health.html

Modiwl dysgu i'r rheini sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

---

### Cyfeillion Dementia
**Y Gymdeithas Alzheimer**
https://learning.wales.nhs.uk/course/view.php?id=606

Amrediad o adnoddau gan gynnwys fideos, a gyflwynir gan GIG Cymru

---

### Ymwybyddiaeth o Ddementia
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/enrol/index.php?id=121

---

### Ymwybyddiaeth sylfaenol o anableddau dysgu
**Y Paul Ridd Foundation**
https://learning.wales.nhs.uk/course/view.php?id=1132

Modiwl a gyflwynir gan GIG Cymru

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau

## Safon 6 Iechyd a Diogelwch

### Iechyd a Diogelwch (Lefel 1)
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

### Ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

### Atal a rheoli heintiau (Lefel 1)
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

## Safon 7: Hylif a Maeth

### Modiwlau hylif a maeth
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=33

## Safon 8: Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS)

### Dadebru (Lefel 1)
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=12

Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

# Adnoddau Dysgu i Gefnogi'r Safonau

## Safon 9: Symud a Chynorthwyo

### Codi a chario Modiwl A (Lefel 1)
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/enrol/index.php?id=14

Hyfforddiant craidd gorfodol i'r rheini sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru

# Adnoddau Eraill

## Yr Iaith Gymraeg

### Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith
**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle

Cyfres o adnoddau i helpu i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal dwyieithog

### Cymraeg Gwaith
**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
https://dysgucymraeg.cymru/

Nod y rhaglen 'Cymraeg Gwaith' newydd yw hyfforddi'r gweithlu, gan roi'r hyder iddynt sgwrsio â'r rheini y maen nhw'n eu cynorthwyo yn Gymraeg

### Dysgu Cymraeg y BBC
**BBC**
http://www.bbc.co.uk/cymru/dysgu/dysgucymraeg

### Dysgu Cymraeg
**Duolingo**
https://www.duolingo.com/course/cy/en/Learn-Welsh

# Adnoddau Eraill
## Yr Iaith Gymraeg

**Say something in Welsh**
**Say Something In**
https://www.saysomethingin.com/welsh

# Adnoddau Eraill

**Siarter cydberthnasau gwirfoddoli a'r gweithle**
**CGGC**
https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/02/WCVA-TUC-Document-Web-Welsh-F2.pdf

Egwyddorion ar gyfer gwirfoddoli llwyddiannus, wedi'u datblygu a cymeradwyo gan CGGC a TUC Cymru

---

**Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddoli (Saesneg yn unig)**
**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**
https://investinginvolunteers.co.uk/

Safon ansawdd y DU ar gyfer ymarfer da mewn rheoli gwirfoddolwyr

---

**Cyrsiau e-ddysgu ar wirfoddoli**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**
https://thirdsectorsupport.wales/cy/ein-cyrsiau/

Gan gynnwys adnoddau ar gyfer y rhai sy'n cefnogi neu'n rheoli gwirfoddolwyr

---

**Casgliad o gyrsiau'n ymwneud â Lles ac Iechyd Meddwl**
**OpenLearn (Y Brifysgol Agored)**
https://www.open.edu/openlearn/health-sports-psychology/openlearn-cymru/wellbeing-and-mental-health-collection

Ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

## Adnoddau Eraill

**Hwb Dysgu Cenedlaethol ar gyfer Gwirfoddolwyr (Saesneg yn unig)**
**OpenLearn (Y Brifysgol Agored)**
https://www.open.edu/openlearn/education-development/what-the-national-learning-hub-volunteers

Ystod o gyrsiau am ddim ar draws ystod o bynciau, addas i wirfoddolwyr neu'r rhai sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr. Mae'r mwyafrif o'r cyrsiau ar gael yn Saesneg yn unig

## Manylion Darparwyr Dysgu Allweddol

**E-ddysgu GIG Cymru**
**GIG Cymru**
https://learning.wales.nhs.uk/

Mae unigolion o wasanaethau elusennol a gwasanaethau cyhoeddus yn gymwys i gofrestru ar y platfform - cysylltwch â thîm gweinyddol e-ddysgu'r GIG neu arweinydd eich mudiad.

Mae llawer o'r cyrsiau ar gael yn Saesneg yn unig.

Nid yw rhai cyrsiau'n rhoi opsiwn hunan-gofrestru, ond gellir gofyn am fynediad.

---

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/sefydlu-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-awif/

Rhagarweiniad Cymru Gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

---

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**
https://thirdsectorsupport.wales/cy/

Hwb Gwybodaeth: gwybodaeth a chyrsiau ar-lein ar wirfoddoli

## Manylion Darparwyr Dysgu Allweddol

**OpenLearn (Saesneg yn unig)**
**Y Brifysgol Agored**
https://www.open.edu/openlearn/free-courses/full-catalogue

---

**Darganfod mwy am brentisiaethau yng Nghymru**
**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/prentisiaethau-2

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.